

## Bwrdd yr Ymddiriedolion

29 Ionawr 2021  
Cyfarfod Rhithwir  
11.00 – 1.30

### SESIWN AGORED: 11.00 – 1.30

#### Presennol:

Meri Huws (Llywydd dros-dro a Chadeirydd)	Lee Yale-Helms (Trysorydd)
Eleri Twynog Humphries	Liz Siberry
Gwilym Dyfri Jones	Yr Arglwydd Aberdâr
Carl Williams	Gwenllian Lansdown Davies
Mike Cavanagh	Quentin Howard
Anwen Jones	Elin Royles
Hugh Thomas	Steve Williams

#### Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
David Michael	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Adnoddau Corfforaethol)
Owain Roberts	Cyfarwyddwr a Dirprwy Brif Weithredwr a Llyfrgellydd (Casgliadau a Rhaglenni Cyhoeddus)

#### Staff eraill:

Annwen Isaac	Rheolwr Adnoddau Dynol
Emyr Phillips	Pennaeth Cyllid a Menter
Illtud Daniel	Pennaeth TGCh (ar gyfer eitem 2.3)
Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethiant a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolion (Cofnodydd)

#### Sylwedyddion:

Catrin Hughes	CyMAAL
Nia Dafydd	Cyngor Partneriaeth
Doug Jones	Cyngor Partneriaeth

### 1.1 Croeso a Sylwadau Agoriadol gan y Llywydd

Croesawodd y Llywydd bawb i chweched cyfarfod rhithwir Bwrdd Ymddiriedolion y Llyfrgell, gan gydnabod cyfnod hanesyddol i'r Llyfrgell yn y ffaith fod ymgyrch ar droed, sy'n cael ei harwain gan aelod o'r cyhoedd, i geisio cael Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid digonol i'r Llyfrgell. Gan fod y

ddeiseb wedi derbyn dros 10,00 o enwau, bydd hyn yn sicrhau trafodaeth ar gyllido'r Llyfrgell ar lawr y Senedd.

## **1.2 Ymddiheuriadau**

Dim ymddiheuriadau i'w nodi.

## **1.3 Datgan Buddiannau**

Datganodd Meri Huws ei bod yn aelod o Gyngor Prifysgol Aberystwyth, Cyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, aelod o Fwrdd VTCT ac o Fwrdd Shelter Cymru.

Datganodd Gwilym Dyfri Jones ei fod yn aelod o staff Prifysgol y Drindod Dewi Sant ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Datganodd Mike Cavanagh ei fod yn Bennaeth Gwasanaethau Diwylliannol, Hamdden, Twristiaeth a Chofrestru Cyngor Sir Penfro, a'i fod yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Llyfrgell ar brosiect Oriol Glan-yr-Afon, Hwlfordd.

Datganodd Steve Williams ei fod yn aelod o staff Prifysgol Abertawe, yn Gadeirydd WHELF ac yn Ymddiriedolwr ar Fwrdd CILIP.

Datganodd Liz Siberry ei bod yn Ymddiriedolwr o Ymddiriedolaeth Gregynog, yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru, yn aelod o Gyngor Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant ac yn aelod o Gyngor Cymdeithas y Cymmrodorion.

Datganodd Eleri Twynog Humphries ei bod yn ymwneud â'r Wyl Hanes Cymru i Blant, sy'n cael ei chefnogi gan Adran Addysg y Llyfrgell Genedlaethol.

Datganodd Elin Royles ei bod yn aelod o staff cyflogedig Prifysgol Aberystwyth, a bod ei gŵr yn gweithio i S4C.

Datganodd Anwen Jones ei bod yn aelod o staff cyflogedig Prifysgol Aberystwyth.

Datganodd David Michael ei fod yn aelod annibynnol o Bwyllgor Archwilio Cronfa Treftadaeth y Loteri.

Datganodd Pedr ap Llwyd ei fod yn Gyfarwyddwr Anweithredol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

## **1.4 Cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd 27 Tachwedd 2020 a thrafod materion yn codi**

Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod agored 27 Tachwedd fel cofnod cywir o'r hyn a drafodwyd yn amodol ar y newid canlynol: newid y pennawd *Maniffesto Gwleidyddol* i *Maniffesto Polisi* o dan Materion yn codi o gofnodion 18 Medi 2020.

## **Materion yn codi o gofnodion 27 Tachwedd 2020**

Dim materion yn codi.

### **1.4.1. Log Gweithredu 27 Tachwedd 2020**

Croesawodd yr Ymddiriedolion y papur ar brosiectau cyfredol sy'n cael eu hariannu gan arian grant, gan annog ei ddefnyddio yng nghyd-destun y Strategaeth newydd i ddangos ystod gwaith y Llyfrgell.

Cytunwyd y dylid cynnwys mwy o wybodaeth am gynnydd y prosiect, unrhyw risgiau o ran amseru a chyllid, a pherchnogion pob prosiect, ac y dylid cynnwys y papur yma fel eitem sefydlog ar agenda'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol o hyn allan. Bydd y Pwyllgor yna yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd ar unrhyw faterion sydd angen sylw.

I alluogi'r Ymddiriedolion i gael gwell deall o'r prosiectau unigol, mae'n fwriad gan y Tîm Gweithredol, pan fydd yr ailstrwythuro wedi ei gwblhau, i ofyn i benaethiaid adrannau roi cyflwyniadau i'r Bwrdd ar eu hardaloedd gwaith.

## **1.5 Gohebiaeth**

### **1.5.1 Llythyr y Gronfa Treftadaeth**

Derbyniwyd y llythyr amgaeedig yn dilyn cyflwyno'r cais diwygiedig i'r Gronfa Treftadaeth parthed yr Archif Ddarlledu Genedlaethol. Mae'r cais diwygiedig wedi ei gymeradwyo, ac mae'r Gronfa Treftadaeth wedi ei groesawu fel cynllun rhagorach na'r cynllun gwreiddiol. Mae rhai amodau i'w bodloni cyn y medrir cael "hawl i gychwyn" gan Gronfa'r Loteri.

Bydd y cais diwygiedig yn cael ei gylchredeg i'r Ymddiriedolion yn dilyn y cyfarfod heddiw.

## **Adran 2 Materion sydd angen trafodaeth a phenderfyniad**

### **2.1 Strategaeth 2021 – 2026**

Diolchodd y Prif Weithredwr i Owain Roberts a Dafydd Tudur am gydlynu'r drafft diweddaraf a pharatoi'r fersiwn derfynol ar gyfer ei chymeradwyo gan yr Ymddiriedolion yn y cyfarfod yma. Mae paratoi'r Strategaeth bum mlynedd yn cwrdd ag un o argymhellion yr

Adolygiad Teilwredig, sef bod yn rhaid i'r Llyfrgell ddarparu cynllun pum mlynedd i Lywodraeth Cymru iddynt fedru ystyried ein sefyllfa gyllidol.

Mae'n fwriad gosod y Strategaeth ar-lein a pharatoi fersiwn byr yn cynnwys y prif negeseuon, wedi ei ddylunio a'i argraffu, at bwrpas hyrwyddo a marchnata. Mi fydd lansiad swyddogol yn cael ei drefnu, a'r bwriad yw creu ffilm fer gyda chyfraniadau gan staff ac Ymddiriedolion. Teitl y Strategaeth fydd *Llyfrgell i Gymru a'r byd*.

Yn dilyn trafodaeth a chytuno ar ddangosyddion cyflawni, mi fydd Cynllun Gweithredu'n cael ei greu, a'i gyflwyno i'r Bwrdd yng nghyfarfod mis Mai.

Awgrymwyd mân newidiadau i'r testun, a chymeradwywyd y Strategaeth newydd yn unfrydol gan yr Ymddiriedolion.

## **2.2 Strategaeth Ryngwladol**

Yn dilyn trafodaeth ynglŷn â pherthynas a pherthnasedd y Strategaeth yma i'r Strategaeth Gorfforaethol, argymhellwyd a chytunwyd y dylid plethu elfennau o'r Strategaeth Ryngwladol i mewn i'r Strategaeth Gorfforaethol, a bod Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Gorfforaethol yn cynnwys elfennau o wireddu'r Strategaeth Ryngwladol.

Cytunodd y Bwrdd felly y dylid parcio'r Strategaeth Ryngwladol am y tro, a gweithredu ar sail yr argymhelliad uchod, a gweithio ar gyfuno elfennau o'r Strategaeth Ryngwladol a'r Strategaeth Codi Arian i mewn i'r prif Gynllun Gweithredu.

## **2.3 Diogeledd Seiber a chyflwyniad i becyn cymorth NCSC**

Croesawodd y Llywydd Illtud Daniel, Pennaeth TGCh, i'r cyfarfod i gyflwyno'r eitem yma. Pwysleisiwyd fod y papur yma wedi ei rannu gyda'r Ymddiriedolion yn unig, oherwydd natur sensitif y cynnwys.

Yn dilyn yr haint *ransomware* difrifol ar isadeiledd technoleg gwybodaeth Comisiynydd yr Iaith Gymraeg, cyflwynodd Illtud nodyn briffio i ddisgrifio i'r Bwrdd y mesurau lliniaru sydd gan y Llyfrgell mewn lle yn erbyn ymosodiad o'r fath, pa risgiau sy'n bodoli, a pha fesurau pellach y medrir eu cymryd petai adnoddau'n caniatáu. Mae staff TGCh hefyd wedi craffu ar systemau'r Llyfrgell yng nghyd-destun y gwersi a fedrir eu dysgu o'r ymosodiad ar systemau'r Comisiynydd Iaith.

Cytunodd yr Ymddiriedolion y dylai'r Pwyllgor Archwilio a Risg ofyn i'r archwilwyr mewnol gynnal adolygiad o ddiogeledd seiber a rôl y Bwrdd o ran diogeledd seiber, gan ei fod yn faes sy'n gyfrifoldeb i'r Bwrdd cyfan, a bydd hyn yn cael ei argymhell yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor

ar 19 Chwefror. Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn adrodd yn ôl i gyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mawrth ar gynnydd.

Rhoddodd Illtud gyflwyniad byr i becyn cymorth Canolfan Cenedlaethol Diogeledd Seiber, *Cyber Security Toolkit for Boards*. Y cam cyntaf fydd i Bennaeth TGCh hwyluso'r Tîm Gweithredol i weithio drwy'r ardaloedd unigol, a bydd yn cynnal 5 sesiwn gyda nhw dros gyfnod o 10 wythnos. Bydd y Tîm Gweithredol yna yn gosod blaenoriaethau a phennu adnoddau, gyda'r bwriad o greu Strategaeth Seiber Ddiogeledd a Chynllun Gweithredu. Bydd y Tîm Gweithredol a Phennaeth TGCh yn adrodd i'r Bwrdd yn rheolaidd ar gynnydd.

## **2.4 Cynlluniau Cyfalaf**

Trafodwyd yr adroddiad yma gan y Pwyllgor Cynllunio Ariannol (PCA) ar 15 Ionawr, a bydd adroddiad manylach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Pwyllgor ym mis Ebrill. Trafodwyd yr adroddiad hefyd gan y Panel Adeiladau yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr, sydd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o CADW a Chyngor Sir Ceredigion, a sicrhawyd y Bwrdd fod y Panel yma yn cadw llygad ar reoli risgiau i'r adeilad.

Bydd yr adroddiad manwl i'r PCA yn cynnwys y risgiau o ran rheoli'r gwariant cyfalaf, ac yn nodi sut mae'r cynlluniau yn bwydo i mewn i'r Cynllun Strategol newydd fydd yn weithredol o Ebrill 2021.

Un o'r prif gynlluniau yw datblygu'r Cwadrant Blaen i wella profiad yr ymwelydd a chynyddu incwm. Mae hwn yn brosiect pwysig, ac mae angen gwneud achos i Lywodraeth Cymru am gyllid i'w ariannu. Mae'r Prif Weithredwr yn nodi hefyd yn ei adroddiad sydd i ddilyn ei fod wedi siarad â Chyngor Sir Ceredigion ynglyn â'r Fargen Dwf, ac roeddent hwy'n croesawu'r datblygiad yma fel un fyddai'n cyfrannu at gynyddu economi Aberystwyth a'r Canolbarth.

## **2.5 Rhaglen Digwyddiadau'r Llyfrgell 2020**

Cyflwynwyd y rhaglen gan Owain Roberts.

Gyda'r cyfyngiadau clo yn debygol o barhau am beth amser ac amodau'n annhebygol o fod yn ffafriol i ddechrau cynnal digwyddiadau ffisegol bydd rhaglen o ddigwyddiadau rhithiol yn parhau yn ystod 2021. Yn arferol, cynllunnir ar sail 6 mis, ond mae digwyddiadau rhithiol yn ein galluogi i gynllunio'n fwy hyblyg ac o ganlyniad gallwn ymateb i newidiadau'n fwy rhwydd.

Byddwn yn edrych ar sut y medrwn fanteisio'n llawn ar y tebygolrwydd y bydd mwy o bobl yn aros yng Nghymru neu'n dod i Gymru o weddill y Deyrnas Unedig ar wyliau yn ystod y cyfnod neu'r blynyddoedd nesaf, ac yn edrych yn ogystal ar bartneriaethu a chydweithio gyda sefydliadau eraill yn ystod y flwyddyn.

Mae Gŵyl y Gelli yn un enghraifft o hyn, ac mae cyfle yma i ymestyn ein cyrhaeddiad a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Mae trafodaethau ar y gweill hefyd gyda'r Ardd Fotaneg Genedlaethol i gynnal digwyddiadau ar y cyd, a bydd ail agor Oriel Gregynog yn creu cyfleoedd amlwg ar gyfer digwyddiadau, a byddwn yn ystyried digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r canmlwyddiant oedd fod wedi ei ddatlu flwyddyn ddiwethaf. Byddwn hefyd yn rhan o Eisteddfod Amgen 2021, gan ddilyn yr un trywydd ag Eisteddfod 2020.

### **Adran 3 Adroddiad y Prif Weithredwr a Llyfrgellydd**

Cafwyd diweddariad gan y Prif Weithredwr ynghylch yr Archif Ddarlledu Genedlaethol, a nododd fod y Llyfrgell wedi derbyn yr amodau i'r cynnig diwygiedig ar 28 Ionawr, sef sicrhau cytundebau gyda S4C, Canolfan y Mileniwm, ac archifdai Cymru.

Bydd Bwrdd Rhaglen Prosiect yr Archif yn cyfarfod ar 2 Chwefror, ac yna yn chwarterol wedi hynny. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd Prosiect gan Quentin Howard. Mae Cyfarwyddwr y Prosiect yn paratoi adroddiad cynnydd ar gyfer y Bwrdd Prosiect, a bydd hwn yn cael ei rannu gyda Bwrdd yr Ymddiriedolion. Disgwylir penodi tua 8 o staff i weithio ar y prosiect dros y misoedd nesaf, a chaffael gwasanaeth brandio a marchnata ar gyfer y cynllun.

Eglurwyd bod Bwrdd Rhaglen y Prosiect yn atebol i'r Tîm Gweithredol, sydd yna'n gyfrifol i Fwrdd yr Ymddiriedolion am gyflwyno'r prosiect. Owain Roberts yw Perchennog y Prosiect, a Dafydd Tudur yw Cyfarwyddwr y Prosiect.

Adolygiad Teilwredig – bydd y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad yn craffu ar y cynllun gweithredu yn ei gyfarfod ar 5 Chwefror, ac yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd yn dilyn hynny. Bydd y Llyfrgell hefyd yn gorfod adrodd ar gynnydd ym mhen y rhawg i Bwyllgor Diwylliant Senedd Cymru.

Roedd y Prif Weithredwr yn falch o nodi ein bod wedi derbyn cymynrodd o dros £1m yn ddiweddar, a hynny yn ddiamod. Bydd y Pwyllgor Cynllunio Ariannol yn trafod y defnydd y medrir ei wneud o'r arian yma, a dod â chynlluniau i'r Bwrdd i'w trafod ymhellach.

Oriel Gelf Gyfoes – gan nad oes unrhyw gynnydd ar hyn o bryd, byddai'n briodol i'r Llyfrgell ddatblygu rhaglen ei hunan ar gyfer Oriol Gregynog am y ddwy flynedd nesaf.

GADAWODD GWENLLIAN LANSDOWN DAVIES A MIKE CAVANAGH Y CYFARFOD AM 1.00.

### **Adran 4 Cydymffurfiaeth a Risg**

#### **4.1 Cofrestr Risg Corfforaethol**

Cyflwynwyd y Gofrestr gan Emyr Phillips.

Mae newidiadau i R1, R2 a R7 yn deillio o drafodaethau ar yr ailstrwythuro, GIA, cymeradwyo cais diwygiedig yr Archif Ddarlledu a Brexit.

Mae angen i'r Tîm Gweithredol ail ymweld â R11 – Seiber Ddiogeled, a'i adolygu ymhellach.

Nid oes unrhyw risigau penodol wedi eu hamlygu yn dilyn Brexit, ond gall ei bod yn rhy gynnar iddynt fod wedi dod i'r amlwg eto.

## **Adran 5 Materion Ariannol**

### **5.1 Cyllideb Ddrafft 2021 - 2022**

Diolchwyd i Emyr Phillips am baratoi'r gyllideb ddrafft, gafodd ei chyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio Ariannol ar 15 Ionawr, ac sy'n nawr yn cael ei chyflwyno i'r Bwrdd am gymeradwyaeth. Byddwn yn ail ymweld â'r gyllideb a'i hadolygu yn dilyn cwblhau'r ailstrwythuro corfforaethol, ac yn dilyn asesu effaith Covid-19 ar incwm masnachol.

Cymeradwywyd y gyllideb yn unfrydol gan yr Ymddiriedolion.

### **5.2 Cyfrifon Rheoli Rhagfyr 2020**

Cyflwynwyd y Cyfrifon Rheoli gan Emyr Phillips, oedd am amlygu'r canlynol;

Cyflwynir cyfrifon rheoli mis Rhagfyr gyda'r ffigurau diwygiedig am gyllideb 2020-21 ag alldro rhagamcanedig ar gyfer y flwyddyn, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Hysbyswyd y Llyfrgell y bydd y gostyngiad o £200k mewn Grant Cymorth yn cael ei ddychwelyd a derbynnir £50k arall ar gyfer costau uwch gweithio gyda COVID-19. Felly, mae'r incwm alldro ar gyfer 2020-21 wedi cynyddu £250k.

Ar gais y Bwrdd, cytunwyd y dylai cyfanswm y cronfeydd preifat gael ei ddangos yn Atodiad 8 – Symudiadau yn y Cronfeydd Preifat, yn ogystal ag Atodiad 7.

## **Adran 6 Adroddiadau o Bwyllgorau**

### **6.1 Cofnodion Drafft Pwyllgor Cynllunio Ariannol a gyfarfu ar 15.01.21**

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Lee Yale-Helms, gan dynnu sylw'r Ymddiriedolion at y ffaith fod y Pwyllgor wedi cymeradwyo i'r Prif Weithredwr gaffael cymorth arbenigol i edrych ar weithgaredd masnachol y Llyfrgell a sut y medrir cynhyrchu incwm ychwanegol.

Roedd y materion eraill a drafodwyd gan y Pwyllgor eisoes wedi eu trafod gan y Bwrdd naill ai yn y sesiwn gaeedig, neu yn ystod y cyfarfod agored.

## **Adran 7 Unrhyw fater arall**

### **7.1 Cylch Busnes 2020 a 2021**

Nodwyd bod Cylch Busnes 2020 wedi ei gwblhau.

### **7.2 Ymgyrch Penodiadau i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr**

Gofynnodd y Llywydd i Catrin Hughes, Swyddog Noddi, ddiweddarau'r Bwrdd ar y broses.

Cynhaliwyd ymgyrch ar y cyd rhwng y Llyfrgell a Llywodraeth Cymru i benodi 5 o Ymddiriedolion newydd i gymeryd lle'r rhai fydd yn gorffen ar 31 Mawrth 2021.

Cafodd 7 unigolyn eu cyfweld ar 25 a 26 Ionawr, a bydd Catrin yn cyflwyno adroddiad i'r Arglwydd Elis-Thomas AS wythnos nesaf. Eglurwyd wrth yr ymgeiswyr y gall fod sawl wythnos cyn iddynt glywed ynglyn â'r penodiadau, ond gan fod bwriad parhau gyda'r etholiad ym mis Mai, fydd yn golygu cyfnod o purdah, bydd yn rhaid gorffen y broses cyn hynny, sef cyn diwedd mis Mawrth.

Pwysleisiwyd y pwysigrwydd o gadw llinellau cyfathrebu cyson gyda'r ymgeiswyr, i osgoi'r oedi a fu yn ystod yr ymgyrch benodi ar y cyd blaenorol.

### **7.3 Proses Gwerthuso Perfformiad yr Ymddiriedolwyr**

Diolchodd y Llywydd i'r Ymddiriedolion am eu cydweithrediad wrth gwblhau'r broses, ac am eu hadborth defnyddiol.

## **8. Unrhyw fater arall**

Cyhoeddodd y Prif Weithredwr ei fod yn croesawu penodiad yr Athro Elin Haf Gruffydd Jones yn Gyfarwyddwr y Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd, ac yn dymuno'n dda iddi.

Gofynnwyd am ddiweddariad ynglyn â'r bwriad i greu Archifdy Cenedlaethol i Gymru, ac addawodd y Prif Weithredwr gylchredeg y datganiad a wnaed gan yr Arglwydd Elis-Thomas AS ynglyn â'r mater cyn y Nadolig i'r Ymddiriedolion. Gofynnwyd i'r mater gael ei osod ar agenda cyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth.



**\*\* DIWEDD Y CYFARFOD AGORED \*\***